Tîm Diwygio'r PAC
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf
Adain y Gorllewin CP2
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

01 Mai 2013

Annwyl Syr/Madam

**Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr: Y Camau Nesaf**

Diolch ichi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r dull o ddarparu taliadau uniongyrchol o dan y PAC.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn rhoi dull gweithredu ar lefel yr ecosystem ar waith i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Mae ein hymateb llawn i gwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1. Y prif bwyntiau yr ydym yn ymdrin â nhw yw:

<u>Newid i daliadau uniongyrchol sy'n seiliedig ar arwynebedd</u>
Mae'r newid sydd ar fin cael ei gyflwyno i daliadau uniongyrchol seiliedig ar arwynebedd yn debygol o gael effaith negyddol ar incwm rhai busnesau fferm ar ôl 2015. Gallai lefelau is o gymorth incwm ysgogi dwysáu amaethyddol mewn rhai mannau tra gallai ffermydd eraill adael darnau llai cynhyrchiol o dir neu fynd allan o fusnes yn gyfan gwbl. Byddai i'r naill fath a'r llall o ymateb ganlyniadau amgylcheddol arwyddocaol.

<u>Gwireddu canlyniadau amgylcheddol y cytunwyd arnynt</u>
Dylai taliadau uniongyrchol seiliedig ar arwynebedd (yn enwedig yr elfen werdd) gael eu hintegreiddio â'r Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfeydd Strwythurol yr UE i helpu i wireddu'r ystod lawn o amcanion amgylcheddol sydd eisoes wedi cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru a'r UE, ond gan gydnabod cyfraniad yr amgylchedd tuag at swyddi a thwf yr un pryd.

Mae'r targedau amgylcheddol allweddol yn cynnwys:

- Adfer yr holl ddyfroedd nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da oherwydd arferion rheoli tir gwledig gwael, erbyn 2021;
- Dod â phob SoDdGA i gyflwr ffafriol erbyn 2026;
- Sicrhau gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Gallai llawer o'r buddion amgylcheddol sy'n cael eu darparu gan gynllun Glastir Sylfaenol ar hyn o bryd gael eu gwireddu fel rhan o'r system taliadau uniongyrchol drwy ddefnyddio'r elfen werdd arfaethedig. Yn ein hymateb diweddar i'r ymgynghoriad cyfochrog ynghylch y Cynllun Datblygu Gwledig, argymellasom y dylai o leiaf 75% o gyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig gael ei ddyrannu i fesurau amaeth-amgylchedd-hinsawdd a mesurau coedwigaeth cysylltiol. Byddai defnyddio'r elfen werdd newydd i ddarparu cynllun ardystio amgylcheddol annibynnol[1] yn sicrhau y byddai arian cyfyngedig y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol felly at y blaenoriaethau amgylcheddol allweddol a ddisgrifiwyd uchod.

Trosglwyddo arian i'r Cynllun Datblygu Gwledig

Mae'r cynnig cyfredol fel rhan o ddiwygio'r PAC i ganiatáu i hyd at 10% o'r gyllideb taliadau uniongyrchol gael ei throsglwyddo i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn debyg i'r darpariaethau modiwleiddio sydd yn y Rheoliadau CE cyfredol.

Mantais cynyddu cwmpas y Cynllun Datblygu Gwledig yw mai dyma'r unig ran o'r gyllideb rheoli tir sy'n pwysleisio trosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, buddsoddi, arloesi ac ymdrin mewn ffordd ehangach â rheolaeth tir integredig yn cynnwys coedwigaeth. Bydd parhau i roi blaenoriaeth i gymorth incwm o dan y drefn taliadau uniongyrchol yn arwain at batrwm datblygu gwledig llawer mwy anwastad. Bydd rhai ffermwyr yn defnyddio'r taliadau i wella'u sefyllfa gystadleuol drwy weithredu mwy cynaliadwy sy'n lleihau costau ac yn gwella mynediad i'r farchnad. Bydd ffermwyr eraill yn defnyddio'r taliadau i gynnal eu harferion cyfredol, pa un a yw'r rhain yn gynaliadwy yn y tymor hir ai peidio.

Cofiwch gysylltu â'r naill neu'r llall o swyddogion CNC os hoffech drafod unrhyw agwedd o'n hymateb mewn mwy o fanylder:

brian.pawson@naturalresourceswales.gov.uk

simon.neale@naturalresourceswales.gov.uk

---

[1] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2013) Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy (CAP Reform) - Presidency consolidated draft Regulation, 12 March 2013, 7183/13 and compromise amendments from 19 March (dogfen 7539/13).

Yn gywir,

**EMYR ROBERTS**
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chief Executive, Natural Resources Wales

emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales,
Tŷ Cambria, Newport Road, Cardiff CF24 OTP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

**Atodiad 1**

**Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – Taliadau Uniongrychol i Ffermwyr: y Camau Nesaf.**

**Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales**

**Taliadau Uniongyrchol**

***1. Oes gennych chi farn ar ba gyfuniad o gyfraddau y dylid ei ddefnyddio? Pam?***

Mae'n ymddangos yn debyg y caiff y newid i daliadau uniongyrchol seiliedig ar arwynebedd sydd i gael eu cyflwyno'n fuan effaith negyddol ar lawer o fusnesau ffermio ar ôl 2015. Gallai lefelau is o gymorth incwm arwain at ragor o ddwysáu amaethyddol mewn rhai mannau tra gallai ffermydd eraill adael darnau llai cynhyrchiol o dir neu fynd allan o fusnes yn gyfan gwbl. Byddai i'r naill fath a'r llall o ymateb ganlyniadau amgylcheddol arwyddocaol. Bydd tarfu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant yn lleihau'r risg o ganlyniadau amgylcheddol gwrthnysig, yn enwedig gan fod gwerth absoliwt llawer o dderbyniadau yn debygol o leihau dros gyfnod 2014-20[2].

Byddai'n well gan Cyfoeth Naturiol Cymru weld system wedi'i seilio ar bedair cyfradd dalu wahanol h.y. Gweundir, Ardaloedd dan Anfantais Fawr, Ardaloedd dan Anfantais ac Iseldir. Yn ôl adroddiad Grŵp Modelu Diwygio'r PAC (fel y'i disgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori ddiweddar) trefn felly fyddai'n cymryd ei lle orau rhwng y gwerthoedd hanesyddol a'r system newydd o daliadau seiliedig ar arwynebedd; gan darfu cyn lleied â phosibl felly ar y diwydiant. Efallai y byddai cynnwys gweundir yn golygu ychydig mwy o gymhlethdod gweinyddol na model tair cyfradd, ond mae'n creu cyfle i bennu'r gyfradd i Ardaloedd dan Anfantais Fawr a'r gyfradd gweundir ar lefelau a fydd yn golygu nad oes angen cynlluniau ar wahân i Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a/neu'r gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol.

Bydd cynllun i Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol sydd wedi'i seilio'n llwyr ar gymorth incwm yn dargyfeirio adnoddau sylweddol oddi wrth rannau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd i hynny ganlyniadau niweidiol i'r amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws Cymru. Mae gweithredu integredig felly i ailstrwythuro taliadau uniongyrchol, cyflwyno'r elfen werdd newydd, defnyddio mesurau'r Cynllun Datblygu Gwledig ac arian Strwythurol yr UE yn mynd i fod yn angenrheidiol dros y saith mlynedd nesaf.

**Cyfnod Pontio**

***2. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfnod pontio fod yn 5 mlynedd, yn 10 mlynedd neu a oes gennych awgrym arall? Pam?***

Mae cyfnod pontio saith mlynedd (yn unol â phersbectif ariannol nesaf yr UE) yn ymddangos yn rhesymol. Byddai hyn yn caniatáu i ffermwyr wneud yr addasiadau busnes angenrheidiol yn raddol. Byddai cyfnod deng mlynedd yn ymestyn y cyfnod pontio nes ei fod yn gorgyffwrdd â chylchoedd dilynol diwygio'r PAC.

[2] Er na phenderfynwyd eto faint o arian fydd ar gael i Gymru, mae penderfyniad y Cyngor Ewropeaidd yn ddiweddar i leihau maint cyllideb yr UE, ynghyd â'r angen i sicrhau mwy o gydgyfeirio mewn cyfraddau talu rhwng y gwahanol Aelod Wladwriaethau, yn ymddangos yn sicr bron o leihau maint y taliadau uniongyrchol y mae llawer o ffermydd yn eu cael.

**Newid i 100% o daliadau arwynebedd**

***3. Ydych chi'n cytuno y dylai'r newid yn y flwyddyn gyntaf fod yn 40%? Pam?***

Nac ydym.

Mae i gyflwyno newidiadau dwys ym mlwyddyn gyntaf y pontio i daliadau arwynebedd y potensial i darfu'n helaeth ar y ffermydd hynny a fydd fwyaf ar eu colled o dan y system newydd. Mae goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol unrhyw ddechrau dwys yn debygol o amrywio o fferm i fferm. Yn niffyg modelu manwl, mae'n ymddangos yn rhesymol awgrymu y caiff y risg o effeithiau gwrthnysig ei lleihau os cyflwynir elfen debyg o newid yn ystod pob blwyddyn o'r pontio.

Gallai cyfres o astudiaethau achos unigol helpu i greu'r achos o blaid proses bontio lyfnach ar lefel Ewropeaidd.

**Cronfa Genedlaethol**

***4. Ydych chi'n cytuno y dylai newydd–ddyfodiaid allu cael hawliau drwy'r Gronfa Genedlaethol?***

Ydym – a dylai blaenoriaeth gael ei rhoi hefyd i rai categorïau eraill o ffermwyr.

Dylai pob newydd-ddyfodiad allu manteisio ar hawliau drwy'r Gronfa Genedlaethol. Mewn marchnad gystadleuol, mae darparu cymorth incwm i rai ffermydd ac nid i eraill yn golygu bod yr olaf yn fwy tebygol o droi at fathau anghynaliadwy o ddwysáu amaethyddol. Er enghraifft, ni fydd ffermydd heb gymorth incwm yn ddarostyngedig i drawsgydymffurfio. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o ddifrod i'r amgylchedd.

Lle mae arian yn gyfyngedig, dylai'r Gronfa Genedlaethol gael ei defnyddio hefyd i roi blaenoriaeth i'r ffermwyr hynny a oedd gynt ar gytundebau rheoli SoDdGA. Gwirfoddol yw cytundebau o'r fath ac ni ddylai cyfranogwyr blaenorol fod o dan anfantais oherwydd penderfyniadau busnes a wnaed ymhell cyn cylch cyfredol diwygio'r PAC.

**Hawliau**

***5. Ydych chi'n cytuno y dylai fod dwy neu dair blwyddyn gyfeirio er mwyn cael hawliau?***

Tair blynedd gyfeirio fyddai orau.

Bydd gweithredu felly yn lleihau'r risg y bydd rhai ffermydd yn cael eu cau allan o'r gyfundrefn taliadau uniongyrchol o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol yn para hyd at ddwy flynedd.

***6. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sydd heb ddefnyddio eu hawliau yn y blynyddoedd cyfeirio allu gwneud cais am hawliau, os gallant ddangos eu bod yn ffermwyr actif?***

Dylent.

Pwrpas y taliadau uniongyrchol yw darparu cymhorthdal incwm. Byddai allgáu'r rheini sydd wrthi'n ffermio (yn unol â'r diffiniad o lefel ofynnol o weithgarwch amaethyddol) yn rhedeg yn groes i bwrpas y system taliadau uniongyrchol yn ôl pob golwg.

**Ffermwr Actif**

***7. Ydych chi'n credu bod y "rhestr negyddol" yn beth da? Pa nodweddion neu fathau o fusnes y dylid eu cynnwys ar y 'rhestr negyddol'?***

Bydd y prawf "ffermwr actif" yn help i sicrhau bod modd targedu cymorth incwm yn fwy effeithiol. Mae potensial i leihau'r cymhlethdod gweinyddol drwy ddefnyddio "rhestr negyddol" i adnabod y busnesau hynny lle mae angen asesiad mwy trylwyr i sefydlu bod lefel ofynnol o weithgarwch ffermio/ cyfran ofynnol o incwm yn deillio o daliadau uniongyrchol.

Wrth greu rhestr negyddol, bydd yn bwysig peidio â chreu anfantais i'r rhai sydd wedi arallgyfeirio'u busnesau yn unol â pholisi'r Llywodraeth. Mae dadleuon tebyg yn berthnasol i'r sefydliadau a'r mudiadau elusennol hynny sy'n darparu cryn lawer o nwyddau cyhoeddus yn sgil cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a/neu fathau eraill o gytundeb rheoli gwirfoddol.

Mae CNC yn argymell na ddylai unrhyw ddiffiniad o ffermwr actif (ynghyd â'r gofynion cysylltiol am lefel ofynnol o weithgarwch amaethyddol) atal cyfranogwyr amaeth-amgylchedd a'r rhai sydd â chytundebau rheoli SoDdGA rhag parhau i hawlio o dan y gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol. Er enghraifft, gallai elfen ariannol y prawf ffermwr actif sy'n cael ei gynnig gael ei seilio ar ennill canran ofynnol o incwm o gymorthdaliadau amaethyddol yn hytrach nag o daliadau uniongyrchol h.y. gellid caniatáu i fusnesau gyfrif taliadau o gynlluniau amaeth-amgylchedd a chytundebau rheoli eraill ochr yn ochr ag unrhyw incwm o Daliadau Uniongyrchol fel rhan o'r ganran gymhwyso.

O dan y rheolau'n ymwneud â chynlluniau sydd wedi'u hysbysebu ar hyn o bryd fel rhai sy'n dod o dan Flwch Gwyrdd Sefydliad Masnach y Byd, ni ddylai cyfundrefn Taliadau Uniongyrchol CE mwyach effeithio'n arwyddocaol ar lefelau cynhyrchu. O ganlyniad, mae'n dra phosibl y byddai unrhyw "ofyniad ffermio gofynnol" wedi'i seilio ar feini prawf amaethyddol pur yn mynd yn groes i ofynion Sefydliad Masnach y Byd. Dylai unrhyw ofyniad ffermio gofynnol felly gydnabod rôl rheolwyr tir yn helpu i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau ecosystem.

**Yr elfen werdd**

***8. Ydych chi'n cytuno y dylai cyfran o'r taliad uniongyrchol fod yn ddibynnol ar weithredoedd amgylcheddol?***

Ydym. Yn ddelfrydol dylai pob taliad uniongyrchol fod yn amodol ar gydymffurfio â'r elfen werdd.

Bwriad y Comisiwn Ewropeaidd wrth wneud taliadau uniongyrchol yn fwy gwyrdd yw dilysu'r statws Blwch Gwyrdd a roddwyd i'r gyfundrefn taliadau gan Sefydliad Masnach y Byd. Mae hynny'n lleihau'r risg y gallai system cymorth incwm yr UE wynebu her gyfreithiol yn y dyfodol.

Mae'r elfen werdd hefyd yn ategu rôl Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn cyflawni yn erbyn yr ystod eang o dargedau amgylcheddol sydd eisoes wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru a'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adfer yr holl ddyfroedd nad ydynt yn cyrraedd Statws Amgylcheddol Da oherwydd arferion rheoli tir gwledig gwael erbyn 2021;
- Dod â phob SoDdGA i gyflwr ffafriol erbyn 2026;

- Gwireddu gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Amcangyfrifwyd cyn hyn bod maint y gweithredu sy'n ofynnol o ran rheoli tir er mwyn gwireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru o safbwynt bioamrywiaeth, lliniaru newid yn yr hinsawdd, tirweddau diwylliannol, rheoli perygl llifogydd, gwarchod adnoddau, iechyd pridd ac ansawdd dŵr, yn £165M y flwyddyn[3]. Er nad yw'r ffigur wedi cael ei addasu ar gyfer chwyddiant, mae'n dal bron ddwywaith yn fwy na'r swm sydd wedi'i ddyrannu i'r rhaglen amaeth-amgylchedd gyfredol.

O dan bensaernïaeth y PAC fel y mae, mae angen i holl fesurau'r Cynllun Datblygu Gwledig gael eu cydariannu gan yr Aelod Wladwriaethau. Nid yw hynny'n wir gyda'r elfen werdd newydd arfaethedig. Bydd sicrhau bod yr elfen werdd yn gallu cyfrannu'n effeithiol at amcanion amgylcheddol cytunedig Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau o gyllideb gyfyngedig y Cynllun Datblygu Gwledig..

***9. Pa ganran dylid ei rheoli fel hyn?***

Dim ond os caniateir i ffermwyr optio allan o ofynion yr elfen werdd y mae'n gwneud synnwyr i ddyrannu canran benodol o'r gyllideb taliadau uniongyrchol i'r elfen werdd. Roedd cynigion gwreiddiol y Comisiwn yn cynnwys yr amod y dylai pob ffermwr sy'n cael y taliad sylfaenol gydymffurfio hefyd â'r elfen werdd. Mewn cyferbyniad, mae Cyngor Amaethyddiaeth yr UE yn cynnig erbyn hyn y dylai'r ffermwyr hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r mesurau gwyrdd golli o leiaf 125% o'r taliad perthnasol[4].

Pe bai cymryd rhan yn yr elfen werdd yn cael ei wneud yn ddewisol, mae angen i'r gyfran o'r gyllideb a neilltuir i'r rhan hon o'r gyfundrefn taliadau uniongyrchol fod yn ddigon mawr i ddarparu cymhelliad digonol i gymryd rhan. Awgrymai cynigion gwreiddiol y Comisiwn y dylai'r Taliadau Gwyrdd newydd gyfrif am 30% o bob amlen genedlaethol. Mae CNC o'r farn y byddai ymdrin mewn ffordd debyg â thaliadau uniongyrchol ffermwr unigol (gydag isafswm o 30% o'r holl dderbyniadau yn ddibynnol ar y mesurau gwyrdd) yn sicrhau y byddai lefel ddigonol o ffermwyr yn manteisio ar y cynllun.

***10. Beth yw eich barn ar yr arferion amgen sy'n cael eu cynnig ar gyfer yr elfen werdd?***

Er nad oedd yn rhoi cymaint o hyblygrwydd ag y byddem yn ei ddymuno, mae penderfyniad Cyngor yr UE yn ddiweddar ar ardystio amgylcheddol yn cynnig y posibilrwydd o ddefnyddio'r taliadau gwyrdd newydd mewn ffordd

---

[3] "Estimating the Scale of Future Environmental land Management Requirements for the UK". Cao,Y., Elliott, J., McCracken, D., Rowe, K., Whitehead, J. a Wilson L. Adroddiad i'r Grŵp Polisi Defnydd Tir gan ADAS a Choleg Amaethyddol yr Alban. Rhagfyr 2009.

[4] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2013) Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy (CAP Reform) - Presidency consolidated draft Regulation, 12 March 2013, 7183 /13 and compromise amendments from 19 March (dogfen 7539/13).

[5] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2013). *Op cit*

a allai ddod â buddion mesuradwy i Gymru[5]. Gellid dweud bod cymryd rhan mewn cynllun amgylcheddol cydnabyddedig fel Glastir Lefel Sylfaenol (wedi'i addasu yn ôl yr angen) yn cyfateb i'r gofyniad gwyrdd newydd, gan ganiatáu gweithredu sy'n cael ei dargedu'n fwy felly tuag at gyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Byddai gwahanu swyddogaethau Colofn 1 werdd a swyddogaethau'r cynlluniau amaeth-amgylchedd sydd ar gael o dan Golofn 2 fel hyn hefyd yn lleihau'r risg o ariannu dwbl. Mae hynny'n parhau'n annerbyniol o dan ddarpariaethau Erthygl 111 o Reoliad CE 1605/2002[6], er y dylid cytuno gyda'r Comisiwn ar ryw fath o drefn bontio er mwyn gwarchod y ffermwyr hynny sydd eisoes wedi llofnodi contract Glastir.

Roedd mesurau gwyrdd gwreiddiol y Comisiwn wedi'u bwriadu i fod yn gymwys ar draws yr UE gyfan. O ganlyniad i'r drefn 'un ateb sy'n addas i bawb' hon, cymharol ychydig o'r cynigion fyddai wedi gwireddu buddion amgylcheddol sylweddol yng Nghymru. Ar y llaw arall, roedd y risg o effeithiau gwrthnysig yn gymharol uchel. Er enghraifft, gallai'r darpariaethau gwreiddiol i arallgyfeirio cnydau fod wedi arwain at ostyngiad mewn cnydau âr ar raddfa fach sy'n llesol yn amgylcheddol, tra byddai'r gofynion o ran glaswelltir parhaol wedi cyfyngu ar allu ffermwyr i drosi ardaloedd o laswelltir wedi'i wella yn goetir yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru ar newid hinsawdd.

Mae'r cynigion cyfredol ynglŷn â thyfu amrywiaeth o gnydau, tir pori parhaol ac Ardaloedd â Ffocws Ecolegol yn llawer mwy hyblyg ac mae'n ymddangos bod y risg o effeithiau gwrthnysig lawer yn llai. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae risg arwyddocaol mai cymharol ychydig y bydd y mesurau gwyrdd newydd yn ei gyflawni o safbwynt newid hinsawdd, ac amcanion y Cyfarwyddebau Fframwaith Dŵr a Chynefinoedd. Er enghraifft, mae mwyafrif helaeth ffermydd Cymru'n debygol o gyflawni'r gofyniad gwyrdd gan fod ganddynt fwy na 75% o dir pori parhaol. Y mesur Ardaloedd â Ffocws Ecolegol sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni yn erbyn targedau amgylcheddol presennol, ond mae'n ymddangos ei bod yn annhebygol y caiff ei ddefnyddio i unrhyw raddau arwyddocaol yng Nghymru oherwydd y ffaith fod y rhan fwyaf o'r arwynebedd amaethyddol cymwys eisoes dan borfa. Gallai cynllun ardystio amgylcheddol ar wahân ddarparu llawer mwy ar ffurf buddion amgylcheddol.

Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r berthynas rhwng coetir fferm, y gyfundrefn taliadau uniongyrchol a tharged plannu coetiroedd Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd gall ffermwyr hawlio taliadau uniongyrchol ar goetiroedd sy'n bodoli'n barod sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, yn ogystal ag ar goetiroedd sy'n cael eu plannu o'r newydd, cyhyd â'u bod yn gallu dangos bod y tir o dan gynhyrchiant amaethyddol yn y flwyddyn gyfeirio (2008). Byddai creu dewis rhwng sicrhau bod cymorth incwm yn dal ar gael a'r mesurau cymorth amrywiol i goetiroedd sydd ar gael o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn tanseilio'r cymhellion i reoli coetiroedd presennol yn weithredol yn ogystal â chreu rhai newydd.

Gallai cynllun ardystio Colofn 1 gael ei ddefnyddio i sicrhau bod rhai camau rheoli coetir o dan Glastir Sylfaenol ar agor i holl ffermwyr Cymru heb ofyniad ar wahân i gymryd rhan yn y rhaglen amaeth-amgylchedd. Byddai modd gweinyddu cynllun ardystio am gost gymharol isel a diogelu arwynebedd sylweddol o goetir yr un pryd. Er enghraifft, gellir defnyddio coetir di-stoc fel un o'r opsiynau cymhwyso.

[6] . Principles of Double Funding. Adroddiad i Grŵp Polisi Defnydd Tir y DU gan y Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd. I'w weld ar: http://www.ieep.eu/work-areas/agriculture-and-land-management/2013/01/principles-of-double-funding

## Cynllun y Ffermwyr Bach

***11. Ydych chi o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynnig Cynllun y Ffermwyr Bach? Pam?***

Nac ydym.

Bydd angen adnoddau gweinyddol sylweddol i sefydlu Cynllun Ffermwyr Bach ar wahân, a gellid eu defnyddio’n well yn rhywle arall. Mae’n ymddangos y gall ffermydd o unrhyw faint wneud cais, yn dibynnu ar ba un a ydynt yn teimlo bod y taliadau safonol yn ddigon deniadol. Nid yw maint yn ddangosydd da o effaith amgylcheddol a gallai goblygiadau unrhyw Gynllun i Ffermwyr Bach fod yn arwyddocaol; yn enwedig pe bai’r rhai a fyddai’n cymryd rhan yn cael eu heithrio rhag y gofynion gwyrdd yn ogystal ag o’r gyfundrefn trawsgydymffurfio.

***12. Yn eich barn chi, pa mor fawr ddylai fferm fod er mwyn gallu hawlio taliad uniongyrchol? Pam***

O dan drefn seiliedig ar arwynebedd, mae’n bosibl y bydd y nifer o hawlwyr newydd yn cynyddu (fel sydd wedi digwydd o’r blaen yn Lloegr). Bydd isafswm o ran maint ffermydd yn lleihau’r risg o ddefnyddio adnoddau gweinyddol sylweddol i ddarparu nifer fawr o daliadau bach – heb ddarparu ond budd cyfyngedig o safbwynt cymorth incwm.

Byddai pennu trothwy gofynnol o dan y gyfundrefn taliadau uniongyrchol yn lleihau’r costau gweinyddol, ond nid yw CNC yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai’n help i benderfynu ar ba bwynt yn union y dylid gosod y trothwy. Mae’r trothwy mynediad i gynllun Glastir wedi’i osod ar 3ha ar hyn o bryd a gallai fod rhai buddion o ran cadw pethau’n syml a defnyddio’r un trothwy arwynebedd (pa un a yw’n cael ei osod ar 3ha neu 5ha) o dan Golofn 1 a Cholofn 2 o’r PAC.

Mae’r profiad gyda Tir Gofal yn awgrymu y byddai cynyddu’r maint trothwy o ran darparu taliadau rheoli blynyddol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn gallu gwella’r ffordd o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig. Gellid rhoi mynediad wedyn i’r daliadau lleiaf un at gyfuniad o fesurau buddsoddi a rhaglenni cynghori a chymorth rhwydwaith sydd wedi’u targedu’n fwy penodol. Byddai defnyddio’r arian sydd ar gael fel hyn yn fwy effeithiol na pharhau i ddarparu ffrwd gyson o daliadau blynyddol bach i’r daliadau lleiaf un.

## Capio

***13. Ydych chi’n credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud taliadau o fwy na €300,000 i fusnesau unigol? Ai €300,000 yw’r lefel gywir ar gyfer capio?***

Mae Llywodraeth Cymru’n iawn i ystyried goblygiadau gwneud taliadau cymorth incwm mawr iawn i fusnesau unigol. Fodd bynnag, nid oes gan CNC unrhyw dystiolaeth a fydd yn help i bennu ar ba lefel y dylai capio o’r fath ddod i rym.

Awgrymwyd y gallai capio fod yn rhwystr artiffisial i dwf busnesau sy’n ymateb i’r farchnad, ond mae angen ystyried materion eraill hefyd:

- Nid yw’n glir a oes angen yr un lefel o gymorth incwm yr hectar ar ffermydd mawr iawn ag ar ddaliadau llai a chanolig eu maint sydd â llai o ddarbodion

maint. Mae trefn ddisgynnol (lle mae'r taliadau yr ha yn mynd yn llai wrth i faint y fferm gynyddu) eisoes wedi cael ei defnyddio yn achos Tir Mynydd.

- Er ei bod yn ymddangos bod capio yn creu rhwystr artiffisial rhag tyfu, mae natur y rhwystr yn weddol elastig yn ôl pob tebyg. Lle mae busnes eisoes o faint sylweddol, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd angen yr un lefel o gymorth incwm yr hectar arno wrth iddo barhau i ehangu.

- Mae'r pwysau ariannol sy'n parhau yn golygu y bydd rhoi taliadau mawr iawn o dan y gyfundrefn taliadau uniongyrchol yn parhau i ddenu beirniadaeth sylweddol o du'r cyhoedd. Mae hynny'n dwyn anfri ar y polisi cyfan ac yn cryfhau'r dadleuon gwleidyddol dros barhau i leihau maint cyllideb gyfan y PAC, yn cynnwys yr elfen datblygu gwledig.

Nid yw unrhyw ostyngiad cynyddol/ capio ar daliadau cymorth sylfaenol yn debygol o effeithio ar lawer iawn o fusnesau yng Nghymru, er y gallai'r broses wirio drwy'r Is-adran Taliadau Gwledig fod yn feichus iawn. Yn ôl y papur ymgynghorol, gallai cyflwyno capio roi tua £1M y flwyddyn tuag at flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae rhai o leiaf o'r busnesau hynny y byddid yn effeithio fwyaf arnynt yn debygol o fynd ati i ailstrwythuro er mwyn osgoi unrhyw ostyngiad mewn taliadau uniongyrchol. Mae'n ymddangos y byddai codi'r trothwy lle deuai gostyngiadau cynyddol i'r taliadau yr ha i rym yn ffordd bragmatig o leihau cymhlethdod gweinyddol y broses gapio.

**<u>Ffermwyr</u>**

***14. Yn eich barn chi, ydy cymorth incwm gorfodol uwch yn ffordd dda o gynorthwyo ffermwyr ifanc?***

Nac ydy.

Mae trafodaethau cyllideb diweddaraf yr UE wedi dangos y bydd y lefelau cymorth incwm yn parhau i ostwng. Bydd angen i bob ffermwr ddefnyddio'r cyfnod sy'n cael ei rychwantu gan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf i sicrhau bod ei fusnes ar sail ariannol gadarn. Bydd darparu lefelau uwch o gymorth incwm i ffermwyr ifanc ar draul ffermwyr eraill yn mynd yn groes i'r amcan polisi trosfwaol o greu diwydiant mwy cystadleuol, a chynaliadwy yn amgylcheddol.

***15. A fyddai'n well eu cynorthwyo gan ddefnyddio mesurau eraill, fel gwella sgiliau, mentora neu grantiau cyfalaf? Pam***

Byddai.

Ers cyflwyno Cynllun y Taliad Sengl, mae ffermwyr wedi cael mwy o hyblygrwydd i benderfynu ar gyfeiriad eu busnes. Mae pobl iau yn tueddu i fod yn fwy arloesol, ac mae'r rhai sydd mewn busnesau sy'n bodoli'n barod mewn sefyllfa dda i helpu gyda'r ailaddasu sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn y dyfodol agos, cyhyd â'u bod yn cael y math iawn o gymorth. Hefyd, mae rhwystrau sylweddol i'w goresgyn o hyd cyn y gall newydd-ddyfodiad ifanc sefydlu menter amaethyddol lwyddiannus.

Mantais darparu cymorth ar ffurf gwella sgiliau, mentora, grantiau cyfalaf a mentrau cydweithredol yw bod y mathau hyn o fecanweithiau yn fwy tebygol o arwain at y mathau o fusnesau arloesol sydd eu hangen yn awr. Mewn cyferbyniad, bydd pwyslais ar gymorth incwm yn arwain at batrwm datblygu llawer mwy anwastad. Gallai rhai ffermwyr ddewis defnyddio taliadau o'r fath

i wella'u sefyllfa gystadleuol drwy ddwysáu mewn modd cynaliadwy[7]. Ar yr un pryd, gallai ffermwyr eraill ddewis defnyddio cymorth incwm i gynnal eu harferion presennol, pa un a yw hynny'n gynaliadwy yn y tymor hwy ai peidio.

Mae CNC o'r farn fod rhaid i hyfforddiant, cyngor a chymorth ariannol a ddarperir i ffermwyr ifanc gael eu seilio ar ymrwymiad ar eu rhan nhw i ddefnyddio arferion rheoli tir cynaliadwy. Mewn llawer o achosion, yr adeg fwyaf bregus o safbwynt amgylcheddol yw pan fydd perchenogaeth busnes yn newid dwylo, ac arferion rheoli hollol newydd yn cael eu mabwysiadu. Dylid ymgorffori ymwybyddiaeth amgylcheddol a sgiliau addas ym mhob rhaglen hyfforddiant a chyngor, gan fod cysylltiad annatod rhwng rheoli tir yn gynaliadwy a pherfformiad busnes tymor hir.

Hoffai CNC hefyd weld y cynigion cyfredol i ddiwygio'r PAC yn cael eu newid yn y fath ffordd fel bod modd darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth ariannol i bob newydd-ddyfodiad i amaethyddiaeth, heb ystyried oed.

**<u>Taliadau Cysylltiedig</u>**

***16. Pa gynlluniau cymorth cysylltiedig fyddai'n dda i amaethyddiaeth yng Nghymru? Pam?***

Yn ystod cylchoedd blaenorol diwygio'r PAC, awgrymodd y sector amaethyddol y gellid defnyddio taliadau cysylltiedig i gefnogi cynhyrchwyr buchod sugno, yn enwedig yn yr ucheldir. Cafodd y cynnig ei wrthod gan Lywodraeth Cymru ar y sail y byddai'n golygu lleihau'r taliadau uniongyrchol i bob ffermwr, er na fyddai ond yn dod â buddion cyfyngedig iawn i'r sector lloi sugno eidion ei hun.

Mae'n ymddangos i ni y byddai'r un peth yn wir am ddefnyddio taliadau cysylltiedig i gysgodi'r sectorau godro ac eidion dwys rhag effeithiau'r newid i daliadau arwynebedd. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer taliadau cysylltiedig wedi'i osod ar 5% o'r terfyn cenedlaethol ar hyn o bryd. Byddai cynyddu'r ffigur hwn yn cynyddu maint unrhyw daliad cysylltiedig unigol, ond byddai'n lleihau'r cymorth sydd ar gael i'r ffermwyr hynny nad ydynt ond yn gymwys i gael y taliad sylfaenol.

Pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu mabwysiadu cynllun cymorth cysylltiedig wedi'i dargedu at y sectorau godro ac eidion dwys, cred CNC y dylai taliadau o'r fath fod yn amodol ar i'r rhai sy'n cael y taliadau gymryd camau pellach i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella ansawdd dŵr a hyrwyddo iechyd anifeiliaid. Byddai cysylltu unrhyw arian ychwanegol wrth gyfres o ymrwymiadau amgylcheddol (un ai drwy gymryd rhan yng Nghynllun Glastir Sylfaenol/ y cynllun Effeithlonrwydd Ynni neu drwy aelodaeth o gynllun gwarantu priodol) yn atgyfnerthu'r dull gwasanaethau ecosystem sy'n cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd fel rhan o Cynnal Cymru Fyw.

O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, efallai y byddai hefyd yn werth ystyried a ddylid cyfyngu mewn rhyw ffordd y nifer o anifeiliaid/y cyfraddau stocio ar dir sy'n cael ei ystyried yn gymwys am gymorth cysylltiedig.

---

[7] Exploring the Concept of Sustainable Intensification. Adroddiad ar gyfer Grŵp Polisi Defnydd Tir y DU gan ADAS a Les Firbank Ecosystems. Ionawr 2013. I'w weld ar: http://aplus.adas.co.uk /Services/sustainability/Ex ploring-the-Concept-of-Sustainable-Intensification.aspx

Neu, gallai cymorth o'r fath gael ei wneud yn amodol ar ymrwymiad i gasglu methan o storfa slyri a/neu gymryd rhan yn y broses o Gynllunio i Reoli Maetholion.

**<u>Cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol</u>**

***17. A oes achos o blaid cael cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol yng Nghymru?***

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb i ymgynghoriad cyfochrog Llywodraeth Cymru ynglŷn â Chynllun Datblygu Gwledig Cymru drwy ddweud *"Byddai cynllun Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol wedi'i seilio ar gymhorthdal incwm yn unig yn arallgyfeirio adnoddau sylweddol oddi wrth rannau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig, gyda chanlyniadau niweidiol i amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trosfwaol ar draws Cymru".*

Yn dibynnu ar feini prawf dynodi ardaloedd â chyfyngiadau naturiol, gallai unrhyw gynllun cyfochrog a gâi ei sefydlu o dan y gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol fod yn gymwys yn y pen draw i gyfran uchel iawn o dir amaethyddol Cymru. Hefyd, câi'r holl daliadau eu creu drwy frigdorri uchafswm o 5% oddi ar y terfyn cenedlaethol i Daliadau Uniongyrchol. A chymryd bod y terfyn cenedlaethol yn aros ar oddeutu £260M y flwyddyn, byddai'r gyllideb fwyaf bosibl i gynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol oddeutu £13M. O'i chymhwyso i derfynau presennol yr ardaloedd llai ffafriol, byddai hyn yn cynhyrchu taliad blynyddol o ryw £9.50 yr ha, ond ar yr un pryd byddai pob ffermwr yn wynebu gostyngiad o ryw £7.50 yr ha yn ei Daliad Sylfaenol. Mewn geiriau eraill, efallai na fyddai'r enillion net i ffermwyr ardaloedd â chyfyngiadau naturiol yn ddim ond oddeutu £2 yr ha.

Mae'r dadansoddiad cychwynnol hwn yn awgrymu y dylai unrhyw gynllun i ardaloedd â chyfyngiadau naturiol a ddatblygir o dan y gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol gael ei dargedu at y tir sydd eisoes yn wynebu'r cyfyngiadau rheoli mwyaf h.y. tir mewn ardaloedd dan anfantais fawr/tir nad yw wedi'i wella'n amgylcheddol sy'n gorwedd o fewn y llinell gweundiroedd.

***18. Beth fyddai'r dadleuon economaidd dros gael cynllun o'r fath?***

Nid yw'n ymddangos bod y dadleuon economaidd dros greu cynllun ar wahân i i ardaloedd o dan gyfyngiad naturiol o dan y gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol yn arbennig o gryf. Ateb amgen fyddai mabwysiadu model pedair cyfradd i daliadau uniongyrchol (h.y. Gweundir, Ardaloedd dan Anfantais Fawr, Ardaloedd dan Anfantais ac Iseldir). O fewn system o'r fath, gallai'r cyfraddau gweundir a/neu ardaloedd dan anfantais fawr gael eu gosod ar lefelau sy'n golygu na fyddai angen cynllun ar wahân i ardaloedd â chyfyngiadau naturiol. Byddai hyn yn symleiddio'r gweinyddu i ffermwyr yn ogystal â lleihau'r costau i Lywodraeth Cymru.

Bydd sefydlu cynllun i ardaloedd â chyfyngiadau naturiol sy'n darparu cymorth incwm o dan Golofn 2 yn dargyfeirio adnoddau sylweddol o rannau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Byddai i hyn ganlyniadau andwyol o ran cystadleurwydd busnesau, rheoli ecosystemau a chynhwysiant cymdeithasol ar draws Cymru.

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai cymorth incwm i amaethyddiaeth gael ei ddarparu drwy'r system o Daliadau Uniongyrchol. Mae angen i unrhyw gynllun

newydd i ardaloedd â chyfyngiadau naturiol a allai gael ei datblygu o dan is-thema ucheldir ganolbwyntio ar alluogi ffermwyr i gael budd economaidd o wella'r rheolaeth ar briddoedd cyforiog o garbon, adnoddau dŵr a bioamrywiaeth.

**Trosglwyddo arian i'r Cynllun Datblygu Gwledig**

***19. Yn eich barn chi, ydy trosglwyddo arian i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ddefnydd da o arian?***

Ydy.

Mae'r cynnig i ganiatáu i hyd at 10% o'r gyllideb Taliadau Uniongyrchol gael ei throsglwyddo i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn debyg i'r darpariaethau modiwleiddio sy'n bodoli yn Rheoliadau cyfredol CE[8].

Mantais cynyddu maint dyraniad y Cynllun Datblygu Gwledig yw mai dyma'r unig ran o'r gyllideb rheoli tir sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo diwydiant mwy cynaliadwy drwy drosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, buddsoddi ac arloesi. Bydd parhau i roi blaenoriaeth i gymorth incwm yn arwain at batrwm datblygu llawer mwy anwastad, gyda rhai ffermwyr yn defnyddio'r taliadau i wella'u sefyllfa gystadleuol drwy weithredu mwy cynaliadwy sy'n lleihau costau ac yn gwella'u cyfran o'r farchnad, tra bo eraill yn eu defnyddio i gynnal eu harferion cyfredol, pa un a yw'r rhain yn gynaliadwy yn y tymor hir ai peidio. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn ddigon hyblyg i gynnal agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol rheoli coetiroedd yn ogystal â chynghori a throsglwyddo gwybodaeth.

Bydd mynd i'r afael â sialensiau parhaus megis newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth dros gyfnod Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru yn lleihau'r angen am atebion drutach yn y dyfodol. Er enghraifft, canfu Adolygiad Stern y bydd buddsoddi 1% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth nawr i ddelio â newid hinsawdd yn help i osgoi gwariant o ryw dair gwaith hynny yn y dyfodol[9]. Mae pwyntiau tebyg wedi cael eu gwneud gan Dŷ'r Arglwyddi ynglŷn â'r angen am fwy o bwyslais ar ymchwil a datblygu ym maes newid hinsawdd, ynghyd â Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig a all ddarparu cyngor ymarferol i ffermwyr a choedwigwyr yn ogystal â sectorau eraill[10].

Mae gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn cyfrannu i'r economi wledig ehangach. Er enghraifft, rhwng 2000 a 2003, roedd taliadau cyfalaf ynghyd â chyfraniadau ffermwyr o dan Tir Gofal yn werth £14.25M. Arhosodd 94% o'r arian hwnnw yn economi Cymru, gyda c.40% o'r gwariant yn digwydd o fewn deg milltir i'r fferm dan sylw. A chymryd yr effeithiau anuniongyrchol i ystyriaeth, roedd effaith y gwariant hwn drwyddi draw ar economi Cymru yn fwy na £21M, a hynny yn ei dro yn cynnal rhyw 385 o Swyddi Cyfwerth ag Amser

---

[8] Mae'r gyfradd gyfredol yng Nghymru yn cynnwys 5% o Fodiwleiddio Gorfodol a 4% o Fodiwleiddio Gwirfoddol, gyda'r holl dderbyniadau'n cael eu defnyddio fel sail i gyfranogiad yng nghynlluniau presennol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

[9] The Stern Review on the Economics of Climate Change, 30ain Hydref 2006: http://www.hm-treasury.gov.uk/sternreviewreport.htm

[10] Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, Tŷ'r Arglwyddi. Adapting to climate Change: EU Agriculture and Forestry. 8fed Adroddiad Sesiwn 2009-10

Llawn. Cafodd llawer o'r swyddi hyn eu creu mewn ardaloedd anghysbell lle mae wedi bod yn anodd i gynlluniau creu swyddi traddodiadol gael effaith[11].

**Sylwadau eraill**

***Rheoliad Llorweddol CE a Chwmpas Trawsgydymffurfio***.

Roedd cynigion gwreiddiol y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio'r PAC yn cynnwys ymestyn y rhestr o Ofynion Rheoli Statudol i gynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Plaleiddiaid. Byddai safon arfaethedig newydd yn ymdrin â chyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da hefyd wedi gwarchod gwlyptiroedd a phriddoedd cyforiog o garbon.

Erbyn hyn mae Coleg Amaethyddiaeth yr UE wedi cytuno y dylid gadael y cynigion uchod i gyd allan o'r Rheoliad Llorweddol drafft[12]. Mae hyn yn ddatblygiad siomedig iawn gan y byddai'r safonau newydd arfaethedig wedi cyfrannu tuag at gyrraedd targedau presennol yr UE a'r targedau cenedlaethol o safbwynt bioamrywiaeth, newid hinsawdd ac ansawdd dŵr. Dylai osgoi difrod amgylcheddol fod yn egwyddor sylfaenol sy'n rheoli sut y caiff cymorth incwm ei ddarparu o dan y PAC.

***Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales***

***Ebrill 2013***

---

[11] Agra-CEAS Consulting (2005). Socio Economic Analysis of Tir Gofal. Adroddiad i'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth Cymru.

[12] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2013) Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy (CAP Reform) - Presidency consolidated draft Regulation, 12 March 2013, 7183 /13 and compromise amendments from 19 March (dogfen 7539/13).